

Dyddiadur Dwy Garrif

Y MONK (parhad)

Aeth y newydd am longdrylliad y *Monk* i lawer cyfeiriad ym Môn ac Arfon, a heiddodd trigolion y glannau i lawr i'r traethau yn ôl eu harfer pan glywid bod broe môr yn debygol o gael ei olchi i'r lan. Roedd yr arfordir o Ddinis Dinlle i'r Felin Heli a chyn belled â Malltraeth ar Ynys Môn wedi ei orchuddio â darnau o goed y llestr, ynghyd â thalpiau o ymenyn a chyrrff y moch a'r teithwyr. O'r saith morwr a gychwynnodd o Borthdinllaen, dim ond un oedd yn fyw. Chwe mochyn yn unig a arbedwyd (gan iddynt nofio i'r tir yn Tal y Foel). Yr oedd dwy fuwch ar fwrdd y llong hefyd: daeth un ohonynt i'r lan yn ddianaf ar draeth Niwbwrch, a chafwyd corff yllall ger Caernarfon lle y'i darniwyd hi mewn byr amser gan bobl y dref, er mwyn y cig.

Ymysg yr ysbeilwyr a oedd yn prysur gario ymaith unrhyw beth o werth, yr oedd torf o fechgyn yn casglu'r ymenyn ar ran Owen Williams, y perchennog, a llwyddwyd i gael rhan helaeth ohono.

Cafwyd gweddillion Capten Hughes yn ystod y dydd Sul ond nid oes sôn ymhle, credaf mai ar draeth Niwbwrch gan mai i'r pentref hwnnw yr aed ag ef i aros ymchwiliad y crwner. Ar draethau Môn hefyd y cafwyd chwech arall o'r trueiniaid. Ddydd Mawrth darganfuwyd pedwar yn Ninas Dinlle. Dydd Mercher yr unfed ar ddeg cynhaliwyd cwest gerbron Mr, Hunter Hughes, y crwner, ym mhentref Llandwrog gyda'r dyfarniad: cafwyd wedi boddi. Yr un diwrnod cafwyd cwest yng Nghlynnog ar gyrff Capten Mathew James a dau o rai eraill anadnabyddus: disgrifir un fel gŵr pum troedfedd pedair modfedd, oddeutu deugain oed, gyda gwallt golau a barf, wedi ei wisgo mewn gwisg morwr; dyn cymharol fychan oedd yr ail gyda gwallt golau ac wedi ei wisgo yn gyffelyb. Yr un oedd y dyfarniad yn yr achos yma.

Ddydd Mawrth y pedwerydd ar hugain o Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod yn swyddfa'r porthladd yng Nghaernarfon, ym mhresenoldeb deg ar hugain o'r

ymddiriedolwyr ynghyd â dirprwyaeth o sefydliad diogelu bywyd llongdrylliadau Ynys Môn.

Bu cryn fesur a phwyso ynglŷn â'r ffaith nad oedd bad achub Llanddwyn yn ei orsaf briodol pan ddigwyddodd damwain y *Monk*. Cafwyd ar ddeall mai wedi bod yng Nghaernarfon yn ymarfer yr oedd y criw, ac mai gwynt stormus oedd y rheswm pam ei fod wedi cael ei adael yn y dref.

Beirniadwyd gŵr Llanddwyn yn llym am eu hesgeulustod a bu llawer o ddadlau ar y pwnc. Cododd llawer i forwr profiadol ar ei draed mewn amddiffyniad, gan ddweud nad oedd gan y rhai anghyfarwydd â'r gymdogaeth ddim syniad mor beryglus y gallai'r twmpathau tywod fod pan fyddai'r gorewyn yn rhedeg a'r gwynt o'r gogledd orllewin. Byddai i'r tonnau godi i uchder o ddeg troedfedd ar hugain ar adegau, ac roedd angen cryn fedrusrwydd i allu eu hosgoi; buasai hynny bron yn amhosibl yn nhywyllwch nos.

Clywyd hefyd am wroldeb yr un criw yn Hydref 1841 pan fu iddynt fod yn gyfrwng i achub dau ar bymtheg o forwyr oddi ar y llong *Mountaineer* a aeth i drafferthion bron yn yr un man a dan yr un amgylchiadau ond ei bod yn ystod y dydd: gweithred gelfydd a dweud y lleiaf.



Tafam Tanrallt, Porthdinllaen, lle bu rhai o'r teithwyr yn ymgomio cyn cychwyn ar eu taith ar y *Monk*.

Ymddengys bod bai ar berchnogion Y *Monk* hefyd gan ei bod, yn ôl yr adroddiadau, ymbell o fod mewn cyflwr i hwylio y tu allan i'r afon Merswy. Mae yn debyg bod hyn yn wir gan nad oedd insiwrans arni y tu allan i gyffiniau yr afon. Dywedwyd bod gwaith atgyweirio wedi cael ei wneud ar y *Monk*, ond y gred gyffredinol oedd bod y coed yn fregus ac na ddylai ei meistr fod wedi mentro i'r môr dan y fath amgylchiadau.

Y rhai a achubwyd oedd: Owen Williams, Birmingham; Hugh Jones, Peiriannydd; Thomas Jones, Tai Dwr; Thomas Davies, Tafarnwr; William Owen, Bodlas; Griffith Ellis; Griffith Jones, Dreifar.

Y rhai a gollwyd oedd: Chwech o forwyr (dim enwau); Capten Henry Hughes; Capten Mathew James; John Jones, Pen y Graig; Thomas Jones, Ty Cerrig; John Griffiths, Ty'n Llan; John Williams, Pen y Graig Fawr; Thomas Jones, Bronheulog; Richard Jones, Glanllynau; James Harrison, Llangwnnadi; William Thomas Smith; Robert Owen, Ty Mawr; John Jones, Cefn Gwynt; Philip Parry (mae i William Parry y sadlar o Laniestyn).

Bu i amryw o longau gael eu dryllio ar y bar yng Nghaernarfon, llongau fel y *barc Jane o New Orleans* gyda 1,300 bwrn o gotwm fore lau, Mehefin 18, 1840; y *barc William Turner o Belfast* gyda'i llwyth o gwano yn Ionawr 1845; y *sgwner Vine o Nefyn* ddydd Sadwrn, Medi 11, 1847 pan gollwyd y morwr i gyd ond un bachgen o'r enw William Williams. Cafwyd Williams ar y twmpath tywod yn lluddedig a gwallgof ac, fel yn achos y *Monk*, ni fu unrhyw ymgais i anfon bad achub Caernarfon na Chlynnog i'r fan.

* * *

Ôl-nodyn: Ar siart o fae Caernarfon a luniw yd gan Lewis Morris yn 1748, gelwir y man lle y dryllwyd y *Monk* yn *MONK BAR*.

Gwilym Felin, Tudweiliog